

Cariad

Darllen: Ioan 8:7

Y cyhuddiad: godineb. Y dystiolaeth: ei dal yn y weithred. Y ddedfryd: llabyddio. Y barnwr: Iesu.

Mae rhan gyntaf y bennod hon (Ioan 8:1–11) yn dangos yn glir y rhagoriaethau ym mhersonoliaeth Iesu oedd yn denu pobl ato; cymysgedd o dynerwch a thrugaredd. Nid yw Iesu'n condemnio, na chwaith yn esgusodi. Hyd y gwelir, nid yw'n beirniadu'r wraig a ddaliwyd mewn godineb, ac eto nid yw'n gadael iddi fynd oddi yno'n berffaith rydd. 'Dos', meddai, 'ac o hyn allan paid â phechu mwyach' (8:11). Yr hyn y mae'n ei wneud yw ei gwahodd i weld cariad Duw a derbyn un wyrth fechan – gwrth maddeuant.

Dowch i ni sylwi'n fanwl ar y digwyddiad. Yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid sy'n llusgo'r wraig hon at Iesu er mwyn ei rhoi ar brawf a gweld sut y bydd Iesu'n ymateb. Maen nhw'n chwilio am brawf pendant ei fod yn gablwr ac yn heretic. Dyma ganolbwynt yr ymrafael sydd, ysywaeth, yn dal i fodoli heddiw – y tyndra rhwng y Gyfraith a'r Efengyl, rhwng cyfiawnder a thrugaredd.

Yn ôl Cyfraith Moses, mae'n rhaid llabyddio'r wraig. Ond mae'r Efengyl yn mynnu y dylid maddau iddi. Mae Iesu'n cydnabod yr angen am gyfraith, er mwyn osgoi anarchiaeth foesol a chymdeithasol. Ond mae'n gwrthod y dull y mae'r Phariseaid yn ei gynrychioli – sef byw eich bywyd yn unol â chyfres o reolau digyfaddawd ac anystwyth – gan fod hynny'n anghydnaws â'r cysyniad o ras Duw yn cael ei dywallt arnom. Y gras hwn sydd wrth galon gweinidogaeth Iesu. Daw hyn i'r amlwg yn ei ddamhegion. Yn nameg y gweithwyr yn y winllan, mae'r rhai a weithiodd am un awr yn cael eu trin yr un mor anrhydeddus â'r rhai a fu'n llafurio ar hyd y dydd. Yn yr un modd, mae'r mab ieuengaf yn cael croeso, heb i'r un cwestiwn

gael ei ofyn am ei anturiaethau yn y wlad bell, ac mae hynny'n cynddeiriogi'r mab hynaf a arhosodd adref.

Does yna ddim rheolau pendant a chadarn pan fyddwn yn sefyll o flaen Duw, dim ond haelioni. Does yna ddim amodau, dim ond cariad. Mae pawb yn bechaduriaid: maddeuir i bawb. 'Pwy bynnag ohonoch sy'n ddibechod, gadewch i hwnnw fod yn gyntaf i daflu carreg ati' (8:7). Cefnu, a mynd allan fesul un y mae'r Phariseaid, 'y rhai hynaf yn gyntaf' – hyd yn oed wedi'u trechu, maen nhw'n cadw at eu harferion a'u rheolau!

Neges syml sydd yma, ac eto mae'n wirionedd sy'n gallu trawsffurfio bywydau. Nid dweud wrth y wraig nad ydi pechod yn cyfrif y mae Iesu. Wrth gwrs bod pechod yn cyfrif; mae'n dramgwydd sy'n tanseilio cariad. Ond nid cymryd mantais o'i heuogrwydd a'i hofnau y mae Iesu'n ei wneud ond sicrhau nad yw wedi ei dieithrio oddi wrth Dduw, "Onid oes neb wedi dy gondemnio?" Meddai hithau, "Neb, syr." Ac meddai Iesu, "Nid wyf finnau'n dy gondemnio chwaith" (8:10–11). A dyma waith yr Eglwys. Dyma'n gwaith ni.

Nid yma i feio a phwyntio bys ydym ni, ond i godi a dyrchafu, i ofyn i Dduw faddau. Bryd hynny'n unig y byddwn yn arddangos cnewyllyn yr Efengyl. Dyma'r ffordd i ddatod llyffetheiriau a dangos fod cariad Duw'n rhagori ar bopeth.

Myfyrdod pellach:

Sut mae delio â phechadur?

Sut mae dangos fod Duw yn maddau ac yn rhoi ail gynnig dro ar ôl tro?